# PARC RHANBARTHOL Y CYMOEDD

**Manteisio i'r eithaf ar botensial cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol y Cymoedd.**

**Papur Trafod ar gyfer Tasglu'r Cymoedd, Ystradgynlais, 3ydd Ebrill, 2017**

Awduron: Andrew Osborne - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Dr David Llewellyn - Blaengad Cyf, Partneriaeth BRO, a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd

---

- Mae treftadaeth naturiol a diwylliannol y Cymoedd ymhlith eu hasedau mwyaf. Gall a dylai gwneud y gorau o'u potensial economaidd-gymdeithasol chwarae rhan hanfodol yng nghynaliadwyedd y Cymoedd yn y dyfodol.

- Mae tystiolaeth gref yn dod i'r amlwg yn fyd-eang yn dangos pa mor effeithiol yw harneisio a gwneud y gorau o asedau naturiol ar gyfer adfywio a datblygu economaidd cynaliadwy, e.e. Dinas Dyfodol Detroit[1], Y Goedwig Merswy[2], a Pharciau Tirwedd Rhanbarth Dinas Stuttgart.[3]

- Dangosodd astudiaethau blaenorol bod diffyg gweithredu strategol cydweithrediadol cydlynol yn rwystr mawr i wireddu y potensial hwn yn y Cymoedd.[4]

- Yn ychwanegol, mae'r Cymoedd yn dal i ddioddef o ganfyddiadau allanol negyddol, hyd yn oed yng Nghymru, sydd yn cael effaith andwyol ar eu atyniad i fusnesau ac fel lle i fyw ac ymweld â nhw. Dangosodd Parc Tirwedd Emscher yn yr Almaen, ymhlith eraill, y gall delweddau negyddol tebyg gael eu gwrthdroi, gan gyfrannu'n helaeth at ddatblygiad economaidd.[5]

- Gwnaethpwyd gynnydd ar y materion hyn trwy ddatblygu cysyniad Parc Rhanbarthol y Cymoedd (PRhyC)[6] (Atodiad 1). Roedd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) - yn cynnwys y tri chorff ar wahân bryd hynny - ac ystod eang o sefydliadau yn y trydydd sector a'r gymuned. Roedd PRhyC yn gweithredu'n llwyddiannus rhwng 2009 a 2013 (Atodiad 2).[a]

- Fel y nodwyd yn yr adroddiad Tasglu’r Cymoedd, *Pum Deg Mlynedd o Adfywio yn y Cymoedd,* fe ddarparodd y PRhyC dystiolaeth sylfaenol gref a gwersi allweddol ar gyfer teilwra’r agwedd hon o asedau unigryw yr ardal.[7,8]

- Dylai agwedd Parc Rhanbarthol y Cymoedd weithio gyda ac ychwanegu at fentrau allweddol eraill megis y Metro, adfywio canol trefi, datblygu twristiaeth, gwella tai cymdeithasol, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a dulliau economi sylfaenol lleol fel astudiaeth *Deep Place* Tredegar.

---

[a] Mae Atodiad 2 yn dangos yr allbynnau a gyflawnwyd trwy'r rhaglen VRP gyda chefnogaeth cronfeydd yr UE yn ystod y cyfnod 2009-2013.

- Mae'r ymdrechion dilynol i adeiladu ar fodel Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynnwys treialon ardal CNC, e.e. yn y Rhondda, a chydweithio llwyddiannus gan dri awdurdod y Cymoedd dwyreiniol (Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent) yn canolbwyntio ar wella rheolaeth ucheldir, troseddau tirlun gan gynnwys tipio anghyfreithlon, a gweithredu ar gyfer peillio.[9]

- Yn adroddiad Comisiwn Twf a Chystadleurwydd[10], nodwyd Isadeiledd Gwyrdd fel cyfle am dwf yn y Rhanbarth Dinas Caerdydd, gan ddyfynu'r PRhyC fel enghraifft. Fe ddatblygwyd cynnig am Barc Tirwedd y Cymoedd[11] ar gyfer y Rhanbarthau Dinas gan arweinyddion amgylchedd y 10 Awdurdod Lleol De-Ddwyrain Cymru â CNC. Byddai mabwysiadu'r agwedd hon yn cyd-fynd â buddsoddiad y Fargen Ddinesig, yn ffocysu ar weithio gyda chymunedau, ond **ni fyddai'n** ceisio am ariannu ohono.

- Mae'r cysyniad PRhyC yn rhoi cyfleoedd ardderchog i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r prif heriau a chyfleoedd yn y Cymoedd, gan gynnwys sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth, gan wella iechyd a lles, ac ynni adnewyddadwy:[8,12]

    - Mae sefydliadau cymunedol yn datblygu fwyfwy eu mentrau eu hunain i gefnogi datblygu economaidd-gymdeithasol lleol yn seiliedig ar yr adnoddau naturiol, e.e. Dyfodol naturiol ar gyfer y Rhondda (Treherbert), Gweledigaeth ar gyfer ein Cwm (Ynysybwl), Llwybr Ebwy Fach, a Fferm Wynt Awel (Tairgwaith). Mae hyn yn adlewyrchu adnabyddiaeth gynyddol gan gymunedau'r Cymoedd gydag eu hasedau naturiol ac ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, mae angen cymorth strategol canolbwyntiedig ar ddatblygiadau cymunedol o'r math i sicrhau'r manteision gorau posibl.[12]
    - Mae mannau gwyrdd amlswyddogaethol o ansawdd uchel, yn agos at ble mae pobl yn byw ac yn gweithio, yn bwysig ar gyfer ansawdd eu bywyd. Er enghraifft, dangosodd astudiaeth a gefnogwyd gan VRP yn 2016 a gyhoeddwyd yn y British Medical Journal (OSEM), rai o'r effeithiau buddiol pwysig ar iechyd trwy weithgarwch cymunedol yn yr awyr agored.[13]

    - Mae'r cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n datblygu yn y Cymoedd yn cynnig cyfleoedd i ddarparu ffrydiau refeniw lleol hanfodol a mynd i'r afael â thlodi tanwydd lleol, ond ar hyn o bryd mae rhai o'r cyfleoedd hynny yn cael eu colli ac mae cynhyrchu ynni cymunedol yn wynebu trafferth i ymsefydlu yn eang.[14]

- Mae'r Astudiaeth Opsiynau Dyfodol PRhyC[8] yn amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu agwedd y PRhyC yn y dyfodol, ynghyd ag opsiynau posibl ar gyfer ei lywodraethu'n effeithiol a chyflwyno gweithredol.

**CYFEIRNODAU**


1. Detroit Future City - detroitfuturecity.com
2. The Mersey Forest - www.merseyforest.org.uk
3. Landschaftsparks Region Stuttgart - www.landschaftspark-neckar.de
4. Valleys Regional Park Strategic Framework (2006). Parkin I *et al*.
5. Emscher Landscape Park: the green heart of the Ruhr Metropolis - www.metropoleruhr.de/en/home/discovering-experiencing/emscher-landscape-park
6. Valleys Regional Park website - www.thevalleys.org.uk
7. VRP Phase I Evaluation (2014), Cardiff University School of Planning and Geography
8. VRP Future Options Study (2014). Blaengad Cyf.
9. TACP report for Torfaen CBC - October 2015.
10. Cardiff City Region Growth and Competitiveness Commission report - www.cardiffcapitalregioncitydeal.wales/report/growth_&_comp_com_process_web.pdf
11. City Region Landscape Park (2016) - making the most of our USP
12. Transforming Landscapes and Identities in the South Wales Valleys (2017). Llewellyn DH *et al*, Landscape Research (in press)
13. Evaluation of cardiovascular risk-lowering health benefits accruing from laboratory-based, community-based and exercise-referral exercise programmes (2016). Webb R, Thompson JES, Ruffino J, Llewellyn DH *et al*. British Medical Journal Open Sport & Exercise Medicine 2: e000089. doi: 10.1136/bmjsem-2015-000089
14. Evolving Energy Landscapes in the South Wales Valleys; perception and participation (2017). Llewellyn DH *et al*, Energy Policy (under review)


**ATODIAD 1 – Parciau Rhanbarthol**

Nid dynodiad cynllunio yw Parc Rhanbarthol nac ychwaith Parc Cenedlaethol neu Barc Gwledig. Mae pob Parc Rhanbarthol yn unigryw ac yn datblygu ei ddiffiniad a'I weledigaeth ei hunan yn seiliedig ar ei nodweddion, anghenion a dyheadau lleol. O ganlyniad, gallant addasu i amgylchiadau lleol, cofleidio arloesedd ac entrepreneuriaeth, ac yn ymgysylltu â chymorth cymunedol. Yn bwysig, mae holl Parciau Rhanbarthol yn defnyddio gwella'r amgylchedd fel sail i wella cymdeithas a’r economi.

**ATODIAD 2 – Cynhwysodd Allbynnau PRhyC (2009-2013):**

- Fe gwblhawyd 39 o brosiectau isadeiledd a thirwedd a 40 o ddigwyddiadau a phrosiectau dehongli
- Fe greuwyd 151 km o hygyrchedd newydd a gwell i gefn gwlad
- Fe greuwyd 30 o swyddi newydd mewn canolfannau ymwelwyr a datblygiadau eraill
- Amcangyfrifwyd bod cyflogaeth trwy waith uniongyrchol ar ddatblygiad adeiladu a safleoedd yn cyfateb i 60 swyddi Cyfwerth Llawn-amser
- Roedd gwariant ymwelwyr yn 24 buddsoddiadau cyfalaf yn cyfateb i gefnogi 87.3 o swyddi Cyfwerth Llawn-amser
- Amcangyfrifwyd sampl o wyth o ddigwyddiadau i gynhyrchu GVA ychwanegol i gefnogi tua 3.5 o swyddi Cyfwerth Llawn-amser am flwyddyn
- Fe hyfforddodd raglen Llysgenhadon Twristiaeth ymunedol, a ennillodd wobr Twristiaeth Gyfrifol y Byd, 543 o bobl, a gafodd gymwysterau cydnabyddedig
- Yr oedd menter enghreifftiol llwyddiannus gwrth-dipio anghyfreithlon